Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

19 Gorffennaf 2024

Annwyl Peredur

**Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25**

Diolch i'ch Pwyllgor am drafod cais y Comisiwn ar gyfer y gyllideb atodol.

Rwy’n falch o nodi bod y Pwyllgor yn fodlon, mewn egwyddor, â’r cais am gyllid ychwanegol cyffredinol, a’ch bod yn sicr mai’r targed a gyllidebwyd o £315,000 o arbedion arfaethedig i’w cronni gan y Comisiwn yw’r mwyaf y gellir ei gyflawni heb effeithio ar wasanaethau.

Mae’r Comisiwn wedi ymrwymo i wella prosesau’n barhaus, a gwneud cynnydd o ran effeithlonrwydd yn unol â’r Datganiad o Egwyddorion, a rwy’n nodi bod y Pwyllgor yn cydnabod ein bod ond wedi dwyn y gyllideb atodol hon ymlaen ar ôl dihysbyddu pob opsiwn credadwy o fewn y sefydliad, heb effeithio ar wasanaethau i Aelodau.

Mae’r Pwyllgor wedi gofyn am ragor o wybodaeth am sut y bydd y Comisiwn yn ymgysylltu ag Aelodau ynghylch darparu gwasanaethau yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau’r Aelodau’n cael eu hadlewyrchu, a sut y caiff y blaenoriaethau hynny eu rheoli o fewn yr adnoddau presennol. Mae'r Comisiwn yn parhau i flaenoriaethu ymgysylltu ag Aelodau.  Yn yr atodiadau, rwyf wedi nodi’r cynlluniau sydd eisoes ar waith ar gyfer gwaith ymgysylltu ag Aelodau sy’n ymwneud â Diwygio’r Senedd, ac rydw i hefyd wedi nodi prosesau a mentrau cyfredol i ymgysylltu ag Aelodau, a deall ac ymgorffori eu hamcanion mewn cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'r Comisiwn yn parhau i adolygu'r prosesau a'r mentrau hyn i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol.

Gall fod yn heriol cydbwyso blaenoriaethau o fewn amgylchedd economaidd anodd. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn, drwy gyflwyno'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig (“y Fframwaith”), wedi datblygu system sy'n galluogi'r Comisiynwyr i nodi'r pwysau ariannol hynny'n gynnar, a'u hystyried. At hynny, mae’r Fframwaith yn sicrhau bod ein staff yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau, trwy gynllunio gwasanaethau a chynllunio’r gweithlu, gyda’r naill a’r llall yn cael eu llywio gan ymgysylltiad yr Aelodau. Mae'r Grŵp Rheoli Portffolio, sy'n gyfrifol am argymell dyrannu cyllid o'r Gronfa Prosiect, yn cael ei lywio hefyd gan flaenoriaethau’r Aelodau, sy'n elfen arwyddocaol yn y matrics sgorio ar gyfer asesu achosion busnes sy'n gofyn am arian. Wrth gwblhau dyraniad cyllidebau, mae’r asesiad unwaith

eto’n cael ei lywio gan yr egwyddor o ystyried yr effaith ar wasanaethau Aelodau. Bydd y Comisiynwyr yn craffu ar y rhain i gyd yn ein cyfarfodydd.

Mae'r Comisiwn yn croesawu gwaith craffu trylwyr y Pwyllgor, a gall roi sicrwydd mai fel dewis olaf – ar ôl ystyried pob opsiwn arall – yr ystyriwyd y gyllideb atodol hon, a bod yr holl arbedion a mesurau effeithlonrwydd posibl wedi'u harchwilio. Rwyf, hefyd, yn nodi eich cais i gael gwybod am ganlyniad y trafodaethau cyflog ar gyfer 2024-25 a’r fargen gyflog newydd. Byddaf yn rhoi diweddariad ar y rheini ar yr adeg briodol.  Rhowch wybod i mi os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.32, ar ôl i'ch Pwyllgor ystyried y cais hwn, bydd y Comisiwn yn gosod **memorandwm esboniadol** yn nodi'r cais hwn am y Gyllideb Atodol Gyntaf i fodloni amserlen ddiwygiedig Llywodraeth Cymru, pan gaiff ei chyhoeddi.  Nid ydwyf yn disgwyl i hyn ddigwydd yn awr tan yr Hydref ac, ar ôl i'r Comisiwn osod ei Gyllideb Ddrafft flynyddol ddiwedd mis Medi. Gallai hyn greu rhai heriau i’r Comisiwn wrth iddo baratoi ei gyllideb ar gyfer 2025-26 ac wrth gwblhau ei drafodaethau cyflog ar gyfer 2024-25 ynghyd â’r cytundebau cyflog nesaf sydd i fod i ddechrau o fis Ebrill 2025.

Rhowch wybod i mi os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir



Hefin David AS
Copi i Manon Antoniazzi

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**ATODIAD A**

**Cynlluniau ymgysylltu ag Aelodau sy’n ymwneud â Diwygio’r Senedd**

*Y Pwyllgor Busnes – parodrwydd gweithdrefnol*

Ym mis Rhagfyr 2023, trafododd y Pwyllgor Busnes ei ddull ar barodrwydd gweithdrefnol ar gyfer diwygio'r Senedd a chytunodd mewn egwyddor i ddechrau ystyried meysydd o ddiwygio gweithdrefnol yn ystod hydref 2024.

Yn ystod y tymor hwn, mae’r Pwyllgor Busnes yn casglu gwybodaeth yn anffurfiol gan Aelodau i helpu i lywio’r gwaith o ddatblygu cylch gorchwyl ar gyfer ei adolygiad o weithdrefnau sy’n ymwneud â diwygio’r Senedd.

Bydd cylch gorchwyl drafft yn cael ei ystyried cyn toriad yr Haf, ar ôl i’r ddeddfwriaeth ddod i rym, a disgwylir i’r adolygiad ddechrau yn yr hydref.

*Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar gyfer y Seithfed Senedd*

Mae rhaglen waith strategol y Bwrdd yn cynnwys sawl adolygiad thematig: Symleiddio, Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol (PPSA), Ffyrdd o Weithio, Adolygu Staffio a Thaliadau a Lwfansau Aelodau, sydd i gyd bellach wedi cychwyn ac yn cael eu cyflwyno fesul cam yn ystod 2023-25.

Mae’r gwaith yn mynd rhagddo i gasglu tystiolaeth, ymchwil gymharol ac ymgysylltu ag Aelodau a rhanddeiliaid ar wahanol gamau yn ystod 2024-25, a fydd yn cael eu cydgysylltu â gwaith ymgysylltu arfaethedig ag Aelodau’r Comisiwn lle y bo’n bosibl i leihau baich a dyblygu. Bydd unrhyw gynigion ar gyfer newid yn destun ymgynghoriad ffurfiol gyda'r Aelodau hefyd.

Mae gwaith arfaethedig y Bwrdd wedi'i gysylltu'n agos â diwygio'r Senedd a gallai unrhyw ddiwygiadau neu faterion yr eir i'r afael â hwy drwy graffu ar y Bil effeithio ar weithgarwch a gynllunnir; mae'r Bwrdd felly yn monitro datblygiadau cam 2 yn agos – yn enwedig o ystyried argymhellion y Pwyllgor Biliau Diwygio mewn perthynas â PPSA ac adolygiad parhaus y Bwrdd o'r lwfans hwn.

Yn ogystal â'r gwaith ymgysylltu eang ac wedi'i dargedu uchod, mae Grwpiau Cynrychioli Aelodau a Staff Cymorth y Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r nod o sicrhau llif effeithiol o wybodaeth rhwng y Bwrdd a'r Grwpiau.

*Fframwaith Rheoleiddio*

Mae cynlluniau’n cael eu datblygu ar gyfer y ddeialog rhwng y Bwrdd a Chomisiwn y Senedd. Nod y ddeialog hon yw sefydlu cyd-ddealltwriaeth o sut y caiff anghenion yr Aelodau eu

cefnogi drwy wasanaethau’r Comisiwn a Phenderfyniad y Bwrdd, gan edrych tua’r Seithfed Senedd ac ar ôl hynny.

O ran symleiddio’r fframwaith rheoleiddio (sy’n rhan o ddeialog y Comisiwn a’r Bwrdd), cyfarfu Hugh Widdis, aelod arweiniol y Bwrdd, â’r Prif Weithredwr a Chlerc, fel Swyddog Cyfrifo ym mis Mawrth i drafod adolygiad symleiddio’r Bwrdd, y rhyngweithio â rôl y Swyddog Cyfrifo a'r Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau, a gwaith cysylltiedig sy'n cael ei wneud gan y Comisiwn yn y maes hwn.

Yn dilyn ei ymgynghoriad ar bolisi Urddas a Pharch y Senedd a’r gweithdrefnau cysylltiedig, mae’r Pwyllgor Safonau Ymddygiad wedi ymrwymo i ymchwiliad cynhwysfawr, gan edrych ar bob agwedd ar ein polisïau a’n gweithdrefnau fel eu bod yn gyfredol ac yn addas i’r diben, cyn y Seithfed Senedd (er nad yw’n cael ei yrru’n benodol gan waith Diwygio’r Senedd). Ymgynghorir ag Aelodau fel rhan o’r gwaith hwnnw.

*Siambr 2026*

Mae Grŵp Cyfeirio Aelodau wedi cael ei sefydlu i sicrhau bod Aelodau, yn ogystal â'r Comisiynwyr, yn gallu ymgysylltu â gwaith y Siambr wrth iddo fynd rhagddo.

*Tŷ Hywel 2026*

Ymgynghorwyd â Chomisiynwyr, Aelodau a rhanddeiliaid eraill a nodwyd er mwyn cofnodi gofynion manwl. Roedd y dulliau ymgysylltu yn cynnwys sesiynau galw heibio, cyfarfodydd personol, cyfarfodydd ar-lein, grwpiau defnyddwyr, arolygon ac ati.

*Y cyfnod pontio ac etholiad – trefniadau dirwyn i ben, diddymu, etholiad a chroesawu*

Mae'r gwaith hwn yn cael ei gwmpasu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn maes o law.

**ATODIAD B – Y Comisiwn yn Ymgysylltu ag Aelodau**

Diben Comisiwn y Senedd yw gwasanaethu’r Senedd i helpu i hwyluso ei lwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd cryf, hygyrch, cynhwysol a blaengar, a deddfwrfa sy’n cyflawni’n effeithiol ar gyfer pobl Cymru. Aelodau o’r Senedd, felly, yw’r grŵp rhanddeiliaid mwyaf arwyddocaol mewn perthynas â gweithgarwch y Comisiwn.

Er mwyn rheoli’r broses o gyfathrebu ac ymgysylltu’n effeithiol ag Aelodau, mae angen inni ddeall eu hanghenion. Ar bob adeg, dylai diben ein gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu ag Aelodau fod i wella perfformiad y Comisiwn drwy wrando ar Aelodau o’r Senedd, eu deall a gweithio gyda nhw i ddarparu’r cymorth sydd ei angen arnynt i wneud y gwaith hanfodol y maent yn ei wneud.

Bydd ymgynghori ac ymgysylltu yn rhan hanfodol bwysig o lywio’r ffordd yr ydym yn llunio ein gwasanaethau, gan baratoi ar gyfer pa bynnag newid cyfansoddiadol a threfniadol a ddaw yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Ein nod yw ymgysylltu mewn ffordd gymesur ag Aelodau, gan roi sylw i  ba raddau y maen nhw’n ymwneud â’r mater o dan sylw, a’u diddordeb yn y mater hwnnw. Bydd amlder, a hyd a lled ein hymgysylltiad – a nifer y pynciau y byddwn yn ymgysylltu yn eu cylch – yn amrywio. Yn ein holl gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid, cawn ein harwain gan sawl egwyddor:

- Mae mewnbwn Aelodau yn rhan allweddol o'n hystyriaeth wrth wneud penderfyniadau.
- Rydym yn darparu cyfleoedd a lwyfannau lluosog at ddibenion ymgysylltu, gan addasu ein hymagwedd i ddiwallu gwahanol anghenion ar faterion allweddol.
- Rydym yn cynnal mecanweithiau ymgysylltu sy'n gweithio'n dda ac yn dod o hyd i ffyrdd gwell o gyrraedd y rheini lle mae ein cyfle i ymgysylltu yn gyfyngedig, neu nad yw’n gweithio.
- Rydym yn helpu Aelodau yn rhagweithiol drwy ddarparu hyfforddiant a chymorth effeithiol.
- Rydym yn ceisio cael y budd mwyaf o wybodaeth a phrofiad yr Aelodau o'n gwasanaethau.

Mae cyrhaeddiad eang o ran cyfathrebiadau ac ymgysylltu ag Aelodau eisoes yn bodoli yn y sefydliad, gyda llawer iawn o weithgarwch yn digwydd. Rydym yn parhau i archwilio a datblygu ffyrdd o symleiddio mynediad at wybodaeth i wasanaethau'r Comisiwn ac ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda golygyddion cynnwys i ddiweddaru a symleiddio mewnrwyd yr Aelodau yn rheolaidd, gan ymateb i feysydd adborth.

Gan gydnabod bod gan wahanol fathau o fecanweithiau cyfathrebu nodau gwahanol – a pha offer sy'n gweithio ar gyfer gwahanol fathau o angen – rydym yn cydnabod bod angen inni ddewis y sianel gyfathrebu gywir o dan amgylchiadau gwahanol.

Mae **Atodiad A** yn nodi'r sianeli cyfathrebu ac ymgysylltu lluosog a ddefnyddir ar hyn o bryd rhwng y Comisiwn a'r Aelodau, gan gynnwys enghreifftiau o ble maent yn cael eu defnyddio.

## Atodiad A

### Y sianeli cyfathrebu ac ymgysylltu lluosog a ddefnyddir ar hyn o bryd rhwng y Comisiwn a'r Aelodau

| Sut rydym yn cyfathrebu (y llwyfan) | Beth | Cyswllt |
|---|---|---|
| Mewnrwyd yr Aelodau | Safle mewnrwyd i gael mynediad at wybodaeth berthnasol a chryno – prosiectau a lincs cyflym. | Y tîm Dysgu ac Ymgysylltu â'r Aelodau |
| Eitemau tudalen newyddion ar y fewnrwyd | 'Newyddion' – yn canolbwyntio ar fusnes i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau'r Comisiwn, newid gweithdrefnau ac ati. Pwysig ar gyfer rhannu gwybodaeth â phawb – negeseuon byr. | Y tîm Dysgu ac Ymgysylltu â'r Aelodau |
| Comisiynwyr | Adborth ac ymgysylltu ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys ynghylch gwasanaethau a chymorth i'r Aelodau. | Clerc i'r Comisiwn |
| Grŵp Cyswllt Pleidiau'r Senedd | Agenda gydlynol o rannu gwybodaeth gan gynnwys gweithgareddau ymgynghori/ymgysylltu sydd ar ddod. | Y tîm Dysgu ac Ymgysylltu â'r Aelodau |
| E-byst i Aelodau a/neu Staff Cymorth | Gwybodaeth bwysig y gellid ei methu ar y fewnrwyd. | Y tîm Dysgu ac Ymgysylltu â'r Aelodau |
| Cyswllt â'r Pennaeth Staff neu bwyntiau cyswllt allweddol yn swyddfeydd yr Aelodau Annibynnol | Gwybodaeth a allai fod yn sensitif a/neu y mae angen ei chydlynu naill ai wyneb yn wyneb neu drwy e-bost. | Y tîm Dysgu ac Ymgysylltu â'r Aelodau / Cymorth Busnes i'r Aelodau – gallu roi cyngor ar bwyntiau cyswllt a chynnwys os yn ansicr |

| | | |
|---|---|---|
| Rhyngweithiadau 1-2-1 uniongyrchol | Defnyddir mewn sawl ffurf, e.e. cyfarfodydd gydag arweinwyr grŵp, cwestiynau neu sgyrsiau rhwng unigolion, strwythuro sgyrsiau e.e. cyfweliadau Ffyrdd o Weithio. | Amrywiol |
| Cyfarfodydd grŵp – presenoldeb uwch swyddogion | Briffio mewn perthynas â materion penodol, pe gwahoddir, e.e. ymgysylltu â phrosiectau Ffyrdd o Weithio – Clerc a Chyfarwyddwr Adnoddau i brosiectau Bae '32 a Siambr '26. | Tîm y Swyddfa Weithredol |
| Grŵp Defnyddwyr | Cynrychiolwyr Aelodau ’r Senedd/Staff Cymorth ar faterion amrywiol, e.e. Tŷ Hywel 2026 – grŵp defnyddwyr. | Amrywiol |
| Grŵp Cyfeirio'r Comisiwn | Nodir yr aelodaeth.<br>E.e. llywio prosiect Siambr '26. | Amrywiol |
| Grŵp Gweithredol | Cyfarfod â Phenaethiaid Staff a phwyntiau cyswllt allweddol yn swyddfeydd yr Aelodau Annibynnol. Yn gam da wrth lansio mentrau, gweithdrefnau neu newidiadau ac mae angen ymgysylltu â Staff Cymorth. | Y tîm Dysgu ac Ymgysylltu â’r Aelodau |
| Bwletin Staff Cymorth | Yn agored i bob aelod o staff cymorth ond o ddiddordeb arbennig i Reolwyr Swyddfa a Phenaethiaid Staff yn benodol. Gwybodaeth weithredol sy'n berthnasol i Staff Cymorth a ddarperir gan Cymorth Busnes i’r Aelodau, y tîm Dysgu ac Ymgysylltu â’r Aelodau, TGCh a’r tîm Diogelwch. | Y tîm Dysgu ac Ymgysylltu â’r Aelodau |
| Fforwm Gweithwyr Achos | Hyfforddiant, newyddion a gwybodaeth wedi'u targedu sy'n berthnasol i Staff Cymorth sy’n weithwyr achos. | Y tîm Dysgu ac Ymgysylltu â’r Aelodau/ Gwasanaeth Ymchwil y Senedd |
| Digwyddiadau ymgysylltu â Staff Cymorth | Rhwydweithio ar gyfer Staff Cymorth mewn lleoliadau ledled Cymru i lywio blaenoriaethau a hyfforddiant allweddol. | Y tîm Dysgu ac Ymgysylltu â’r Aelodau |

| | | |
|---|---|---|
| Rheolwyr cyfrif TGCh | Cefnogaeth gydag unrhyw faterion sy'n ymwneud â TGCh, ond hefyd yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau eraill. | TGCh |
| Fforwm Staff Cymorth y Siambr a'r Swyddfa Gyflwyno | Trafod materion gweithdrefnol neu fusnes e.e. newidiadau i Reolau Sefydlog. | Ysgrifenyddiaeth y Siambr a'r Swyddfa Gyflwyno |
| Grŵp gwella Gwasanaethau Ymchwil | Grwpiau Staff Cymorth yr Aelodau i nodi gwelliannau i'r gwasanaeth a chael adborth/ymgysylltu. | Y Gwasanaeth Ymchwil |
| Sesiynau galw heibio yn y Cwrt | Yn ddefnyddiol ar gyfer codi ymwybyddiaeth a chael adborth, yn helpu o ran casglu barn. | Y tîm Dysgu ac Ymgysylltu â'r Aelodau |
| Arolygon Aelodau o'r Senedd/Staff Cymorth yr Aelodau | Casglu barn a chael adborth. | Y tîm Dysgu ac Ymgysylltu â'r Aelodau |
| Grwpiau cyfeirio Aelodau o'r Bwrdd Taliadau Annibynnol / Staff Cymorth | Ymgynghori/ymgysylltu gan y Bwrdd Taliadau ynghylch y Penderfyniad neu newidiadau polisi sy'n effeithio ar Staff Cymorth. | Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Taliadau |